
Ionawr 2024

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

# Strategaeth Weithredu
# Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol
# Gogledd Cymru

Wedi'i datblygu gan Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd




UK PBS Alliance

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council · Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol County Borough Council · Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council · Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council · Cyngor Gwynedd Council · Wrexham County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam · GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Beth yw Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol?

- Mae Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS) yn fath o fodel gofal sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd bywyd ac mae wedi'i fwriadu i gefnogi pobl ag anableddau dysgu gydag ymddygiad sy'n destun pryder.

- Ymddygiad sy'n destun pryder yw ymddygiad sy'n ei gwneud hi'n anoddach i'r unigolyn neu'r bobl o amgylch yr unigolyn gael bywyd da.

- Mae Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn cael ei gyfrif fel y ffordd orau o ddarparu gofal i'r rhan fwyaf o'r unigolion hyn.

- Dyma ddolen i fideo 6 munud o hyd gan Sefydliad Anableddau Dysgu Prydain (BILD) sy'n rhoi trosolwg o Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol a sut mae'r dulliau'n gweithio'n ymarferol wrth gefnogi unigolyn:

  https://youtu.be/epjud2Of610



# CYMORTH YMDDYGIAD CADARNHAOL

## YN SEILIEDIG AR WERTHOEDD

Mae Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn cefnogi hawliau dynol ac yn hyrwyddo parch, urddas, cynhwysiant a bywyd heb rwystrau diangen. Mae'n golygu trin pobl yn gyfartal a gweithio mewn partneriaeth gyda'r unigolyn a'u teulu i wella pethau i bawb.

## HYRWYDDO ANSAWDD BYWYD

Nod cyffredinol Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yw gwella ansawdd bywyd unigolyn a bywydau'r rhai o'u hamgylch. Mae hyn yn cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion, yn ogystal â phobl hŷn. Mae Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn darparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i'r unigolyn er mwyn iddynt allu byw bywyd ystyrlon a difyr gan gymryd rhan mewn gweithgareddau a dysgu sgiliau newydd.

## DEALL YMDDYGIAD A DIWALLU ANGHENION

Mae Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn defnyddio gwahanol ddulliau i gasglu gwybodaeth i ddeall beth mae ymddygiad pobl yn ei olygu. Mae'n gwella cefnogaeth ac yn galluogi pobl i ddefnyddio ffyrdd gwell a llai niweidiol o fodloni eu hanghenion. Mae hyn yn aml yn cynnwys defnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau sy'n gwella bywyd unigolyn.

## GWNEUD I SYSTEMAU WEITHIO I'R UNIGOLYN

Rhoi'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir er mwyn i bobl allu ffynnu a chyflawni eu potensial. Gallai hyn olygu newid sut mae'r unigolyn yn cael eu cefnogi. Gallai gofalwyr a staff fod angen hyfforddiant, ac efallai fod angen i ddiwylliannau a strwythurau gwasanaeth newid. Mae adolygu'n barhaus yn bwysig i sicrhau bod cefnogaeth yn parhau i weithio'n dda i'r unigolyn a'r rhai o'u hamgylch.

# Pwy ydym ni a beth ydym ni'n ei wneud?

## Ni yw...

- Cynghrair Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol Gogledd Cymru
- Rydym ni'n grŵp o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

# Rydym ni'n ceisio:

- Gwella ansawdd a chynyddu'r defnydd o Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol da yng Ngogledd Cymru
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol da, ei werth a'i fanteision
- Hyrwyddo a chefnogi mynediad at hyfforddiant
- Datblygu arweinyddiaeth ymarfer
- Datblygu rhwydwaith o ymarferwyr Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol
- Sefydlu cynhadledd flynyddol



# Beth sy'n cael ei ystyried yn Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol da?

## Canolbwyntio ar yr Unigolyn

- Mae Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn cael ei gynllunio ar gyfer yr unigolyn gan eu cynnwys yn y broses
- Y prif nod yw gwella ansawdd bywyd (yr unigolyn a'r rhai o'u hamgylch)
- Cefnogi'r unigolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt
- Dweud sut i ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir
- Ceisio gwneud yr unigolyn yn barod i lwyddo, nid canolbwyntio ar broblemau yn unig
- Gall ymddygiadau sy'n destun pryder wella yn sgil hyn



# Beth sy'n cael ei ystyried yn Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol da?

## Ar Sail Asesiadau

- Gwyddonol
- Ar sail tystiolaeth
- Gwybodaeth wedi'i chasglu o wahanol ffynonellau (yn cynnwys gan yr unigolyn eu hunain a'r bobl sy'n eu hadnabod orau)
- Cofnodion yn cael eu cadw a'u gwerthuso
- Cynllun Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yw'r canlyniad



# Beth sy'n cael ei ystyried yn Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol da?

## Dull System Gyfan

- Dylai pawb gael eu cynnwys
- Bydd angen hyfforddiant
- Pwysigrwydd dull cyson
- Integreiddio gyda chanllawiau eraill ar gynlluniau gofal



# Beth sy'n cael ei ystyried yn Gymorth Ymddygiad Cadarnhaol da?

## Adolygu'n Rheolaidd

- Cynllun Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn ddogfen fyw
- Ei ddefnyddio bob dydd - peidio â'i gadw o'r golwg
- Eglurder o ran adolygu:
    - Gan bwy?
    - Gyda phwy?
    - Sut bydd yn cael ei adolygu?
    - Pa mor aml?
    - Bydd yn newid gyda'r unigolyn



# Eisiau Dysgu Mwy?

**Our website is**

Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

**www.gogleddcymrugydangilydd.org**

Mae'n cynnwys llawer o wybodaeth a dolenni i fwy o wybodaeth, yn ogystal â dolen i Gwrs Ymwybyddiaeth ar-lein rhad ac am ddim.

Os oes gennych chi ddiddordeb:

- Cynyddu a gwella ansawdd Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn eich sefydliad
- Rhywfaint o gefnogaeth i ddatblygu arweinyddiaeth ymarfer
- Cymorth gydag ariannu hyfforddiant Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol

Mae croeso i chi gysylltu â ni ar
**Ldtransformation@flintshire.gov.uk**

Eisiau Dysgu Mwy?
I ddysgu mwy, gallwch hefyd gael golwg ar wefan UK PBS Alliance.
**www.bild.org.uk/uk-pbs-alliance/**



UK
**PBS**
**Alliance**

Hoffem ddiolch i BILD am ganiatáu i ni ddefnyddio eu gwybodaeth a'u graffeg ar y daflen hon.